Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

27.10.23

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Mae eleni yn flwyddyn bwysig i ni ym Mryn Tawe, wrth i ni ddathlu 20 mlynedd ers croesawu'r disgyblion cyntaf drwy giatiau'r ysgol ym Medi 2003! Mae'r ysgol wedi profi llu o lwyddiannau arbennig dros y cyfnod arbennig yma - yn academaidd, yn gymdeithasol, ar lwyfannu ac ar gaeau chwarae. Mae'r rhain wedi cyfrannu at lwyddiant ardderchog yr ysgol dros y cyfnod yma. Heb os, rhaid diolch i'r miloedd o ddisgyblion a rhieni sydd wedi cyfrannau at a chefnogi'r ysgol ers y dyddiau cynnar hyd at heddiw! Mae'n bwysig felly ein bod yn dathlu'r garreg filltir bwysig yma dros y flwyddyn nesaf gyda chyfres o ddigwyddiadau.

Fel rhan o'r dathliadau yma, byddwn yn perfformio Sioe Gerdd 'High School Musical' cyn y Nadolig, ar y 5ed, y 6ed a'r 7fed o Ragfyr. Mae'r ymarferion wedi mynd yn hwylus iawn hyd yn hyn a bydd yn braf croesawu cymaint o rieni a ffrindiau'r ysgol i ymuno gyda ni wrth i ni ddathlu talentau perfformio'r carfannau presennol o ddisgyblion. Byddwn yn rhannu trefniadau prynu tocynnau ar ôl hanner tymor - dewch yn llu.

Mae wedi bod yn hanner tymor cyntaf prysur gyda'n disgyblion yn profi nifer o lwyddiannau amrywiol ym myd chwaraeon, prosiectau academaidd, ymweliadau allgyrsiol a pherfformiadau gwahanol. Mae wedi bod yn braf croesawu disgyblion a rhieni Blwyddyn 6 ein hysgolion cynradd yr wythnos hon i ymweld â'r ysgol.

Fel ysgol, rydym wedi wynebu cyfnod tywyll iawn yn ystod y mis diwethaf wrth i ni ffarwelio gydag un o'n disgyblion mwyaf annwyl. Er iddi frwydro afiechyd yn ddewr ac yn ddiwyd, gyda thristwch mawr, fe gollon ni Emily Williams, disgybl yn ein 6ed Dosbarth, yng nghanol mis Medi eleni. Mae colli Emily wedi gadael bwlch mawr ym Mryn Tawe, ond rydym yn cymryd ysbrydoliaeth yn ddyddiol drwy gryfder a thosturi'r teulu a ffrindiau Emily drwy'r cyfnod tywyll iawn yma. Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i staff yr ysgol am eu cefnogaeth a'u cynhaliaeth arbennig i'r disgyblion, ac yn enwedig i ffrindiau annwyl Emily. Mae lle arbennig i Emily yng nghalon teulu Bryn Tawe.

Gaf i ddiolch i chi fel rhieni am eich cefnogaeth i'r ysgol dros yr hanner tymor cyntaf eleni. Ar bob adeg, byddwn yn darparu'r cyfle gorau i bob disgybl i lwyddo drwy gydweithio agos a chyson rhwng yr ysgol a'r cartref ac edrychwn ymlaen at barhau i ddatblygu'r berthynas arbennig yma dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

Yn ddidwyll,

Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Microsoft Schools
Ysgol sy'n parchu hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi School of Rugby
Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales